Rhannu a chofnodi atgofion - Canllaw dechreuwyr i gynnal cyfweliad Hanes Llafar

Oes gyda chi ddiddordeb mewn cofnodi atgofion rhywun yn eich teulu neu rywun rydych chi'n gofalu amdanyn nhw? Hanes Llafar yw cyfweld â rhywun i gofnodi ei atgofion a barn am bwnc penodol.

Cyn i chi ddechrau bydd angen:

- Eich offer recordio gan gynnwys gwefrydd – gallai hwn fod yn ffôn sy'n eich galluogi i recordio sain/ffilm yn y cyfweliad. Pin a phapur i wneud nodiadau
- Pin a phapur os ydych yn ysgrifennu eu hatgofion
- Y cwestiynau rydych chi am eu gofyn
- Man tawel, cyfforddus (neu mor dawel ag y gallwch chi ddod o hyd iddo)

Cyngor da

- Os ydych chi'n recordio'r cyfweliad, sicrhewch fod gennych chi ddigon o fatri a'ch bod wedi gwasgu'r botwm recordio.
- Gofynnwch gwestiynau agored - Allwch chi ddweud wrtha i? Sut brofiad oedd hynny? Sut roeddech chi'n teimlo? Beth rydych chi'n feddwl am? Dywedwch fwy wrtha' i am…
- Gwrandewch yn astud ac osgoi tarfu, nid sgwrs yw hon
- Ysgrifennwch unrhyw gwestiynau sy'n dod i'ch meddwl tra mae'r cyfwelai'n siarad a gofynnwch nhw pan fydd y cyfwelai wedi gorffen ateb eich cwestiwn
- Peidiwch â phoeni am gyfnodau tawel – weithiau dywedir mwy pan ganiatewch dawelwch
- Os gallwch chi - cadwch y sain/ffilm ar gyfrifiadur gan y gallai fynd ar goll ar eich ffôn/llechen
- Trawsgrifio'r cyfweliad – Teipiwch beth mae'r cyfwelai a'r cyfwelydd yn ei ddweud. Rhowch gopi o'r trawsgrifiad i'r cyfwelai fel y gall lenwi unrhyw beth nad ydych yn sicr yn ei gylch a chadarnhau ei fod yn fodlon ar y cyfweliad
- Teipiwch eich nodiadau a'u cadw mewn lle rydych yn gwybod y gallwch ddod o hyd iddyn nhw yn y dyfodol

Mae'n bwysig gofyn i'r person rydych yn cyfweld ag ef am ei ganiatâd i gofnodi ei stori. Os ydych yn recordio neu'n ffilmio'r cyfwelai gofynnwch iddo nodi ei fod yn hapus i'w stori gael ei recordio.

Dechrau eich cyfweliad...

Gwnewch ddatganiad cyflwyno ar ddechrau pob recordiad sain neu fideo

- Cyflwynwch eich hun
- Cyflwynwch y person rydych chi'n mynd i gyfweld ag ef
- Dywedwch ble mae'r cyfweliad yn digwydd
- Y dyddiad

Os ydych yn cynnal y cyfweliad dros y ffôn, ysgrifennwch:

- Enw llawn y person sy'n cynnal y cyfweliad
- Enw llawn y person sy'n cael ei gyfweld
- Dyddiad a lleoliad y cyfweliad

Er enghraifft: Dyma Sarah Jones yn cyfweld â Katie Smith ar 24 Mawrth 2020 yn Nhreganna, Caerdydd

Sarah Jones: Katie ydych chi'n cytuno i gael eich cyfweld a'ch recordio?

Katie: Ydw